Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pennal
# Pennal
# Machynlleth
# Gwynedd
# SY20 9JT

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pennal

Mae'r ysgol gynradd hon wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Pennal, ger Machynlleth yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Dyffryn Dulas yng Nghorris ers 2012.

Mae 22 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys dau ddisgybl oed meithrin sy'n dechrau'r ysgol yn rhan amser yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Tros dreigl amser, mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan tua 43% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwch na'r ganran genedlaethol o 21%. Mae tua 5% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011 a phenodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

**[Nodyn i'r CA: I'w ddileu am arolygiadau UCD/DYYG]**

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol a'r ffederasiwn yn feistrolgar a llwyddiannus iawn gan feithrin tîm hynod ymroddgar a chydwybodol. Gwireddir gweledigaeth glir ar ddatblygu disgyblion llawen a llwyddiannus mewn amgylchedd ddiogel lle y gall disgyblion flodeuo a datblygu.

Mae'r disgyblion yn hynod falch o'u hysgol ac mae'r naws gartrefol a theuluol sy'n bodoli yn nodwedd fendigedig ac amlwg ohoni. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac maent yn dangos parch uchel iawn at eu cyfoedion, staff yr ysgol ac ymwelwyr.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson o'u mannau cychwyn ar draws y meysydd dysgu gan ddatblygu eu medrau yn gyson mewn amrywiaeth effeithiol o weithgareddau diddorol. Maent yn awyddus i roi cynnig ar weithgareddau heb ofni methu. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr medrus ac annibynnol.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn darparu profiadau cyfoethog iddynt mewn amgylchedd ddysgu gynhaliol a chynhwysol. Mae'r athrawon yn cynnig cefnogaeth arbennig i'r disgyblion ac yn diwallu anghenion pob un disgybl unigol yn effeithiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol

A2 Sicrhau bod athrawon yn herio pob un disgybl i gyflawni hyd orau ei allu

A3 Cryfhau rôl y disgyblion wrth fynegi barn yn uniongyrchol ar weithdrefnau ehangach yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Ysgol Pennal yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn datblygu eu medrau yn gyson ar draws ystod o feysydd dysgu.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae bron pob un disgybl yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol mewn ystod dda o weithgareddau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn trafod yn effeithiol ac yn dangos parch at gyfraniadau ei gilydd. Mae bron pob un disgybl yn awyddus i gynnig atebion a datblygu eu syniadau'n llwyddiannus wrth ddylunio pypedau, er enghraifft. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r mwyafrif yn datblygu geirfa a phatrymau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth berfformio sgript am frwydr Bryn Glas. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau llafar Cymraeg a Saesneg yn effeithiol gan ddatblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog medrus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dangos diddordeb mewn amrywiaeth briodol o lyfrau ac yn mwynhau darllen ar goedd, gan wneud hyn yn gynyddol hyderus. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen lleiafrif y disgyblion yn datblygu yn unol â'u hoed a'u gallu ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd dros gyfnod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl a chyda cywirdeb yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau yn hyderus, ar y cyfan. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn cywain gwybodaeth a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i afonydd yr Amason. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg lleiafrif y disgyblion yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fedrus yn y cyfnod sylfaen. Maent yn ffurfio llythrennau a geiriau syml trwy amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft wrth ysgrifennu am Cled y Clown. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau. Maent yn defnyddio ystod addas o farciau atalnodi ac yn sillafu geiriau syml yn gywir, ar y cyfan. Mae'r mwyafrif yn dewis geirfa addas, er enghraifft bod 'mam weithiau'n hapus, weithiau'n flin, mae'n werth y byd', wrth ysgrifennu cerdd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn ysgrifennu brawddegau fwyfwy cymhleth ac yn rhannu eu gwaith yn effeithiol i baragraffau. Maent yn dewis a dethol geirfa yn ofalus mewn amrywiaeth gyfoethog o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu 'llond llwyed o gariad, pinsied o garedigrwydd, cwpan o gysur' mewn rysáit heddwch. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu creadigol yn gadarn, er enghraifft wrth ddisgrifio teimladau mewn ymson faciwi yn ystod y rhyfel. Mae bron pob un disgybl yn cyflwyno eu gwaith yn daclus a thestlus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur,

amser a data. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gasglu a mesur dail yr Hydref. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac maent yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau. Er enghraifft, maent yn mesur uchder taflu crempog mewn centimetrau a milimetrau yn ofalus gan gyflwyno'r canlyniadau mewn graff bar. Maent yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol mewn gwahanol ffurfiau, er enghraifft wrth fesur hylif gwrthrychau yn dadmer wrth ddysgu am Santes Dwynwen.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod dda o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu cymhwyso'n fedrus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn tynnu lluniau o'u gwaith wrth gyflawni gwahanol heriau a'i arbed yn annibynnol yn eu ffeiliau digidol personol. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau creadigol ac ieithyddol mewn ffyrdd buddiol wrth greu fideo am Deri'r Ddraig. Ar frig y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau datrys problemau a medrau meddwl yn fwriadus wrth lywio tegan rhaglenadwy i symud i sgwâr sy'n cynnwys siâp 3D arbennig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau TGCh blaenorol. Maent yn chwilio am wybodaeth berthnasol oddi ar y we'n ddiogel ac yn defnyddio'r wybodaeth i greu pamffled gwybodaeth ar lochesi Anderson. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau'n fedrus i reoli roced i symud o blaned i blaned ar y sgrin. Maent yn datblygu medrau creadigol yn fwriadus wrth ddefnyddio ap i greu cân i hybu bwyta'n iach yn seiliedig ar gymeriad o'r Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i greu a holi cronfeydd data yn anghyson ac nid yw eu medrau i ddefnyddio taenlenni wedi datblygu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn gwerthfawrogi'r naws hynod gartrefol a theuluol sydd yno ac mae hyn yn nodwedd fendigedig ac amlwg yn yr ysgol. Mae ymddygiad a disgyblaeth bron pob un disgybl yn ardderchog. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd yn y dosbarth a thu allan ar y buarth. Maent yn dangos parch uchel iawn at eu cyfoedion, staff yr ysgol ac ymwelwyr. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac yn awyddus i ddysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu eu hunain trwy gynnig syniadau ar gyfer eu gwaith thema. Er enghraifft, maent yn cynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu am yr Ail Ryfel Byd ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol wrth drefnu parti i ddathlu'r thema gyda chyfeillion yr ysgol.

Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd yfed a byw'n iach ac yn deall bod bwyta ffrwythau amser egwyl yn bwysig. Mae pob un disgybl yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ymarfer dyddiol o amgylch tir yr ysgol er mwyn cadw'n heini. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn trafod effaith ymarfer corff ar y galon yn effeithiol yn eu gweithgareddau dysgu.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gofalu am y byd. Er enghraifft, maent yn egluro nodweddion a phwysigrwydd y fforestydd glaw ar yr amgylchedd yn llwyddiannus. Maent yn manteisio ar y cyfle i ofalu am eu cynefin drwy waith diwyd y clwb garddio sy'n ategu balchder disgyblion am yr ysgol. Maent

yn ymfalchïo yn y gymuned ehangach ac, er enghraifft, wedi creu addurniadau o'r helyg sydd yn tyfu ar safle'r ysgol ac wedi cynhyrchu picl plant Pennal er mwyn ei werthu yn ffair aeaf Machynlleth. O ganlyniad, mae elw'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n hael at brynu adnoddau i'r ysgol, fel sgrin werdd, er enghraifft.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol wrth fod yn aelodau'r cyngor ysgol. Maent yn frwdfrydig yn trefnu gweithgareddau er mwyn codi arian at amrywiaeth o elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o anghenion eraill yn y byd ehangach. Mae dylanwad y cyngor ysgol ar bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, o ganlyniad i drafodaeth, mae'r pennaeth wedi buddsoddi mewn drysau newydd ar gyfer toiledau'r ysgol. Maent hefyd yn hyrwyddo rheolau'r ysgol trwy greu posteri buddiol i'w harddangos. Mae dylanwad y llysgenhadon ifanc yn sicrhau bod hawliau plant yn dechrau cael eu hamlygu yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn datblygu eu llais er mwyn cael dylanwad ehangach yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dyfalbarhad yn eu gwaith ac maent yn gweithredu syniadau effeithiol i helpu eu hunain a'u ffrindiau i ddysgu yn fwy effeithiol. Erbyn hyn, maent yn hyderus i wynebu anawsterau heb ofn methu. O ganlyniad, mae bron pob un yn dechrau datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, ac yn dechrau cymryd cyfrifoldeb ehangach am gyflawniad eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn hyrwyddo hyn yn effeithiol wrth ysgrifennu, perfformio a recordio rap i bwysleisio'r angen i fod yn ofalus tra'n pori'r we. Mae ymweliad gan yr heddwas lleol yn atgyfnerthu hyn yn fuddiol. Mae pob disgybl yn gwerthfawrogi bod oedolyn ar gael pe bai rhywbeth yn eu poeni. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn ardderchog ac yn sicrhau darpariaeth sy'n cyfateb i'w hanghenion personol yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion sy'n hybu'r dysgu'n llwyddiannus. Maent yn ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn fedrus ac yn eu hannog i weithio'n ddiwyd. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion yn effeithiol i ymroi o'u gorau mewn amgylchedd ddysgu gefnogol.

Mae'r athrawon yn gosod amcanion dysgu clir i'r disgyblion ac yn eu holi'n gelfydd er mwyn dwyn gwybodaeth flaenorol i gof. Maent yn datblygu eu syniadau'n llwyddiannus wrth eu hannog i gyfrannu'n gyson i'r gweithgareddau dysgu, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol goedwigoedd trofannol. Mae athrawon yn sicrhau cyflymder effeithiol a rhediad llyfn i'r gweithgareddau. Maent yn annog y disgyblion i gydweithio'n fedrus gyda'u cyfoedion er mwyn datblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth drefnu gwledd yn Sycharth i ddathlu buddugoliaeth brwydr Bryn Glas. Mae'r staff yn dechrau cefnogi'r disgyblion yn gynnil heb ymyrryd yn ormodol yn y dysgu, ac yn eu hybu i fod yn ddysgwyr medrus.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cyfateb i allu bron pob un disgybl yn llwyddiannus. Maent yn annog y disgyblion i roi cynnig ar amrywiaeth eang o weithgareddau heb ofn methu. Darperir adborth llafar adeiladol iddynt gan eu

hannog i gymryd cyfrifoldeb i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion fyfyrio ar eu dysgu ac maent yn cynnig gwelliannau pwrpasol iddynt gyflawni'n dda.

Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol i'r disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol. Maent yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr iddynt gyfrannu at eu gweithgareddau gan ddatblygu'r gallu i gymryd perchnogaeth dros eu hymdrechion yn grefftus. Cyfoethogir y ddarpariaeth yn fwriadus trwy drefnu amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol i siarad am wahanol faterion, ac ymweliadau â mannau diddorol fel y Ganolfan Dechnoleg Amgen i addysgu am ddiogelu'r amgylchedd. Yn ogystal, mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy weithgareddau sy'n seiliedig ar gwpan rygbi'r byd a thrwy astudio hanes Owain Glyndŵr fel rhan o'r thema 'Arwyr'.

Mae'r staff yn fodelau iaith medrus ac maent yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn naturiol i'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael effaith gadarnhaol ar awydd y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell bob tro yn y dosbarth nac mewn sefyllfaoedd anffurfiol y tu hwnt iddi.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu creadigrwydd y disgyblion. Maent yn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu medrau ar draws yr ysgol, er enghraifft wrth ddatblygu eu gallu i arsylwi ar fanylder yng ngwaith celf eraill cyn defnyddio'r un technegau yn eu gwaith hwy. Cyfoethogir y gwaith hwn yn llwyddiannus gyda phrosiectau gydag artistiaid allanol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso ystod eang o fedrau fel cerddoriaeth a TGCh yn rymus.

Mae gan athrawon ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn cynllunio cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau o dan arweiniad staff a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth iddynt greu addurniadau. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau'r disgyblion yn yr awyr agored, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer creu diod dathlu yn y gegin fwd.

Mae'r athrawon yn darparu ystod eang a diddorol o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau'n gadarn dros gyfnod, gyda'r athrawon yn olrhain y medrau'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'r medrau yn ddigon manwl dros gyfnod er mwyn sicrhau bod pob un disgybl yn cyflawni hyd orau eu gallu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hynod groesawgar. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn cynnig gofal, cymorth a chefnogaeth arbennig iddynt. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn gweithio'n ddiogel ar y we yn effeithiol ac mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn dangos parch a chwrteisi at eraill, ac yn ymddwyn yn gyson dda yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau olrhain a thracio cynnydd cadarn. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar iawn ar eu taith yn yr ysgol ac maent yn darparu

arweiniad a chefnogaeth gwerthfawr iddynt. Mae'r staff cymorth dysgu yn hynod fedrus ac yn cefnogi disgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, i wneud cynnydd da. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau bod pob un disgybl yn derbyn y gefnogaeth amserol i'w galluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus at y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi'n glir yr hyn sydd angen ei wella ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu gweithdrefn i wella lles emosiynol disgyblion drwy gynnig sesiynau i'r sawl sydd eu hangen i wella lefelau gor-bryder, dicter a straen. Mae'r disgyblion a'u rhieni yn cael mewnbwn pwrpasol i'r cynlluniau unigol ac yn eu hadolygu yn dymhorol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae'r seicolegydd addysg a'r therapydd llefaredd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth wedi ei mapio'n fanwl ac mae rhaglenni cefnogi dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan y staff berthynas agos iawn â'r rhieni ac maent yn eu croesawu i'r ysgol yn gyson. O ganlyniad, mae'r rhieni'n gweithio'n agos gyda'r athrawon i gefnogi'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae rhiant yn arwain clwb garddio yn llwyddiannus iawn ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn 'Ysgol Heddwch' sy'n golygu bod y disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o werthoedd dyngarol yn effeithiol. Mae rhiant sy'n arbenigo ym maes cwnsela yn darparu sesiynau i ddatblygu gwydnwch sy'n cael effaith rymus ar agweddau dysgu cadarnhaol y disgyblion. Mae'r athrawon yn cyflwyno adroddiadau pwrpasol i rieni ar ddiwedd y flwyddyn sy'n adrodd yn glir ar gynnydd eu plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol y disgyblion yn werthfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Maent wedi ysgrifennu anthem ysgol o dan arweiniad bardd enwog a chreu darnau celf deniadol. Mae'r staff hefyd yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae'n hybu gweithgareddau i annog y disgyblion i fyw yn iach trwy ddarparu gwersi nofio iddynt mewn pwll nofio lleol, er enghraifft. Mae'r staff yn annog disgyblion i gadw'n heini drwy gynnal ras ddyddiol ar safle'r ysgol ac yn eu hannog i ddyfalbarhau trwy'r weithgaredd 'dal i fynd'.

Mae gwasanaethau a chynlluniau ar gyfer addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol yn fwriadus trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli. Darperir cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddysgu am grefyddau eraill ac am fywyd pobl eraill ar draws y byd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo perthynas agos a chynhyrchiol gyda'r eglwys leol wrth i'r disgyblion gymryd rhan mewn gwasanaethau Nadolig, cynhaeaf a Sul y Cofio.

Mae'r ysgol yn hybu gwerthoedd hybu cynaliadwyedd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth dyfu a gwerthu llysiau. Mae'n dathlu wythnos fasnach deg yn flynyddol sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o degwch yn effeithiol. O ganlyniad, mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion, nid yn unig o faterion lleol, ond hefyd o faterion byd-eang, yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu medrau arwain yn briodol, er enghraifft trwy weithgareddau'r llysgenhadon ifanc, cyngor ysgol a'r dewiniaid digidol. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau hyn yn cael cyfle i fynegi barn yn uniongyrchol ar weithdrefnau ehangach yr ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth y ffederasiwn yn ardderchog ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion llawen a llwyddiannus, yn hynod effeithiol. Mae ffocws buddiol iawn ar greu hafan hapus a chynhwysol yn sail ar gyfer creu amgylchedd effeithiol iawn lle gall disgyblion ddatblygu'n llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae ethos arbennig ar draws y ffederasiwn ac mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n barhaus. Mae'r holl staff yn rhannu'r weledigaeth ar draws y ddau gampws yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau a deilliannau'r disgyblion.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel i'w hun ac i'r staff ac mae'n gwirio bod y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn cael eu cynnal trwy drafodaethau buddiol iawn mewn cyfarfodydd staff ar y cyd. Cofnodir y cyfarfodydd hyn yn gryno, gan nodi penderfyniadau a sylwadau pwrpasol, unrhyw ddogfennaeth neu wefannau perthnasol a gyfeiriwyd atynt, ynghyd ag unrhyw weithredu pellach sydd ei angen. Mae'r broses hon yn sicrhau bod dilyniant clir o un cyfarfod i'r nesaf a bod yr holl athrawon yn cael cyfle i gyd-adolygu cynnydd yn fanwl yn erbyn unrhyw gamau gweithredu. O ganlyniad, mae atebolrwydd yn eglur iawn ac mae ymrwymiad yr holl athrawon i ddatblygu strategaeth gytûn yn gadarn iawn. Trwy hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddwy ysgol yn dysgu oddi wrth ei gilydd trwy rannu arfer dda a chydweithio'n bwrpasol ar feysydd penodol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae athrawes fu'n gweithio yn y cyfnod sylfaen yn cael ei mentora'n llwyddiannus wrth iddi ymsefydlu mewn dosbarth sy'n cynnwys yr holl ystod o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae arweinwyr yn ymateb yn llwyddiannus iawn i flaenoriaethau cenedlaethol. Enghraifft arbennig o hyn yw sut mae ethos y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus iawn yn y ddwy ysgol ac yn arbennig yn Ysgol Dyffryn Dulas. Defnyddir yr arbenigedd a geir yno yn hynod effeithiol i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth yn Ysgol Pennal. Mae'r pennaeth wedi sicrhau bod y staff wedi cychwyn paratoi yn fwriadus ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, maes o law. O ganlyniad, mae parodrwydd disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac i ddatblygu eu medrau creadigol yn gryfder eithriadol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at lwyddiant athrawon i ennyn brwdfrydedd a dychymyg disgyblion yn y ddwy ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod, cefnogi a herio'r ysgolion yn effeithiol. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol o ran monitro, olrhain a

hyrwyddo ethos a gwerthoedd ysgolion y ffederasiwn. Mae’r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd i graffu ar lyfrau, arsylwi gwersi ac i drafod eu gwaith gyda’r disgyblion. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth uniongyrchol werthfawr iddynt sy'n eu galluogi i ofyn cwestiynau perthnasol i werthuso effaith unrhyw newidiadau. Mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n fuddiol. Mae hyn yn amlwg iawn wrth iddynt herio safon llawysgrifen a chyflwyniad y disgyblion ac wrth fonitro bod disgyblion yn deall ac yn ymateb i sylwadau athrawon ar sut i wella eu gwaith. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi staff yn effeithiol iawn gan ddangos gofal bugeiliol arbennig trostynt, pan fo angen. Mae’r corff llywodraethol yn hybu’r egwyddor o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda drwy sicrhau bod dŵr ar gael i ddisgyblion yn ystod y dydd a bod cyfleoedd buddiol iddynt arddio a thyfu llysiau.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o weithdrefnau hunanwerthuso yn hynod bwrpasol er mwyn nodi cryfderau'r ysgolion a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae blaenoriaethau datblygu’r ffederasiwn yn adlewyrchu'r deilliannau a nodwyd yn glir iawn. Mae gan y ddwy ysgol hanes cryf iawn o wneud gwelliannau ac mae arweinwyr wedi ymateb yn bwrpasol iawn i argymhellion yr arolygiadau blaenorol. O ganlyniad, mae’r ddwy ysgol mewn sefyllfa gadarn erbyn hyn ac mae Ysgol Dyffryn Dulas, yn benodol, wedi dangos gwelliant eithriadol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant cyfoethog o fynd i’r afael ag anghenion dysgu proffesiynol staff, drwy gynnig cyfleodd buddiol iddynt gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau proffesiynol mewn meysydd penodol. Maent yn gwneud hyn drwy roi cyfle i athrawon ymchwilio i arfer orau yn ogystal â gweithredu newid yn y ddarpariaeth. Mae sesiynau hyfforddiant yn effeithiol, ac yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau cynllun gwella’r ffederasiwn. Mae staff yn rhannu eu medrau newydd ymysg ei gilydd yn dilyn cyrsiau yn hynod effeithiol. Enghraifft benodol o hyn yw’r ffordd y maent wedi datblygu hyder y staff mewn medrau digidol creadigol, sydd, maes o law, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau disgyblion. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu’n gadarn iawn, ac maent yn weithredol ac yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod cymaint o gysondeb â phosibl yn y ddarpariaeth ar draws y ffederasiwn.

Mae arweinwyr wedi sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno’r cwricwlwm yn ddiddorol ac maent yn defnyddio’r adnoddau’n effeithlon. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau gwella’r ysgol ac maent yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau. Enghraifft benodol o hyn yw sut maent yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i liniaru effaith tlodi ar ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020